



PRESTATYN A GALLT  
MELYD CYNLLUN TREF AC  
ARDAL

“EDRYCH YMLAEN GYDA’N GILYDD”

2012 – 2020

RHIFYN TACHWEDD 2013

## Rhagarweiniad

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi mabwysiadu nod strategol o fod yn “gyngor sy’n perfformio’n dda yn nes at y gymuned”.

Mae’r Cyngor Sir yn gwahodd y cynghorau tref a chymuned a’r busnesau, y gymuned a’r sectorau gwirfoddol ym mhob un o’i brif drefi a’r cymunedau anghysbell llai sy’n gysylltiedig â nhw i ymuno â’i gilydd i ddatblygu “cynlluniau trefol” i helpu i gyflawni’r nod yma. Fe fydd y rhain yn ddogfennau byw a fydd yn cael eu hadolygu’n rheolaidd ac fe fyddan nhw’n gosod

- y sefyllfa bresennol yn y trefi
- y sialensiau a’r cyfleoedd allweddol y byddan nhw’n eu hwynebu yn y degawd nesaf
- gweledigaeth ar gyfer pob tref i’w darparu â dyfodol cynaliadwy
- camau realistig a chyraeddadwy a fydd yn cyflenwi’r weledigaeth honno

Fe wnaeth Cabinet y Cyngor Sir gydnabod yn ei gyfarfod 15 Ionawr 2013, nad oedd y Cynlluniau Tref wedi ystyried anghenion a blaenoriaethau cymunedau llai a mwy gwledig, a chytunodd i ehangu’r Cynlluniau Tref yn Gynlluniau Tref ac Ardal ehangach i fynd i’r afael â’r diffyg hwn. Cytunodd y Cabinet yn ei gyfarfod 16 Ebrill 2013 y byddai’r Cynlluniau Tref ac Ardal newydd â thair adran a byddai’r rhain yn

- un adran yn nodi gweledigaeth a blaenoriaethau pob Tref,
- ail adran yn nodi sut mae cymunedau llai a mwy gwledig yn ymwneud â’r brif Dref,
- y drydedd adran yn nodi unrhyw anghenion neu flaenoriaethau penodol ar gyfer y cymunedau llai a mwy gwledig.

Dyma wedyn yw’r Cynllun Tref ac Ardal newydd ar gyfer Prestatyn a Gallt Melyd.




## Adran Un

### Gweledigaeth a blaenoriaethau Prestatyn

Prestatyn, a oedd yn anheddiad Rhufeinig yn wreiddiol, ydi'r fynedfa i ardal arfordirol Gogledd Cymru a'r mwyaf dwyreiniol o gyrchfannau arfordirol Gogledd Cymru. Mae canol y dref yn gorwedd rhwng y llechwedd a'r môr ac mae â lleoliad unigryw yn un pen i lwybr Clawdd Offa sy'n boblogaidd ag ymwelwyr o fannau eraill yn y Deyrnas Unedig a thramor.

Gwelwyd y twf mawr cyntaf ym Mhrestatyn pan adeiladwyd y rheilffordd rhwng Caer a Chaergybi yn 1848 ac fe'i sefydlwyd fel cyrchfan wyliau pan adeiladodd Thomas Cook Draeth y Tŵr yn y 1930au. Ers hynny mae Pontin wedi adeiladu gwersyll gwyliau ar yr hen stadiwm a'r trac trotian.

Roedd Prestatyn yn bencadlys cenedlaethol Kwik Save nes i Somerfield gaffael y cwmni.



Mae gan Prestatyn nifer o gyfleusterau cyhoeddus yn cynnwys ysgol uwchradd (Ysgol Uwchradd Prestatyn) efo canolfan hamdden ar y safle, Sinema'r Scala, y Nofa, Canolfan Fowlio Gogledd Cymru, ysbyty cymunedol ac uned y Fyddin Dirioogaethol. Mae'r dref yn ganolbwynt i nifer o bentrefi gwledig ac aneddiadau.

**Poblogaeth tref Prestatyn yw 16,783.**

## Lle'r ydyn ni rŵan

(Dangosir y gwir ffigurau yn yr Atodiad Ystadegol.)

### Pobl

O'i chymharu â'r sir gyfan, mae tref Prestatyn â

- **mwya o bobl sy'n 65 oed a throsodd,**
- **canran uwch o rai dros 85,**
- **llai o bobl ifanc dan 15,**
- **cyfran is o aelwydydd sy'n orlawn**

### Cymuned

O'i gymharu â'r sir gyfan, mae llai o bobl yn nhref Prestatyn

- **wedi eu geni yng Nghymru, ac**
- **yn gallu siarad Cymraeg.**

Mae'r gyfradd droseddu yn y dref yn is na'r gyfradd gyfartalog ar gyfer y sir, ac eithrio digwyddiadau o ddifrod troseddol. Mae'r gyfradd droseddu yn ward Dwyrain Prestatyn yn uwch na chyfartaledd y sir gydag achosion o ddifrod troseddol a dwyn a thrin yn uwch na'r cyfartaledd a thrais yn erbyn person yn is na'r cyfartaledd. Bydd trosedd yn y ward yma'n digwydd gan fwyaf yn y Stryd Fawr ac yn Pontin's. Mae cyfradd droseddu yn wardiau eraill y dref yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y sir gyda'r gyfradd yn ward De Orllewin Prestatyn yn arbennig o isel.


Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio fformiwla i fesur amddifadiad a elwir yn "Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru". Mae Cymru wedi ei rhannu'n 1896 o ardaloedd sy'n llai na wardiau Cyngor Sir. Yna fe gaiff pob ardal ei graddio gan roi sgôr o 1 i'r mwyaf amddifad a'r lleiaf amddifad â sgôr o 1896.

Nid yw'r sgorau mewn blynnyddoedd gwahanol yn uniongyrchol gymharol gan fod y ffordd y cyfrifir y mynegai'n newid dros amser.

Yn rhifyn 2011 o'r Mynegai, mae Llywodraeth Cymru'n ystyried fod pob un o'r "Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is" yn y dref yn fwy amddifad nag yr oedden nhw yn 2005, ac eithrio Gogledd Prestatyn 2 a Dwyrain Prestatyn 1.

Ystyrir mai ardal Canol Prestatyn 2 yw'r fwyaf amddifad yn y dref yn y Mynegai ar gyfer 2005, 2008 a 2011 gan y cawson nhw i gyd eu cyfrifo gan ddefnyddio data o Gyfrifiad 2001 o ran cyfran y tai heb wres canolog a gwydr dwbl. Yn amser cyfrifiad 2001, roedd llawer o'r tai Cyngor yn yr ardal arbennig yma heb un ai wres canolog neu wydr dwbl. Dylai buddsoddiad gan y Cyngor wedi hynny i ddod â thai i Safon Ansawdd Tai Cymru olygu na ddylai'r ardal yma gael safle mor uchel erbyn yr amser y defnyddir data Cyfrifiad 2011 i gyfrifo'r Mynegai.

Roedd ystadegau ar gyfer ardal Maes y Groes a Rhodfa Fictoria'n dynodi y gallent fod wedi cymhwyso ar gyfer statws Ardal Adnewyddu Tai pe byddai cyllid ar gael o hyd.



Map yn dangos yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is ym Mhrestatyn



## Swyddi

O'i gymharu â'r sir yn ei chyfanrwydd,

- **mae llai o bobl sydd o oed gweithio sy'n byw ym Mhrestatyn yn gweithio yn y sector cyhoeddus (er bod mwy o bobl yn Sir Ddinbych yn gweithio yn y sector yma nag mewn unrhyw ardal awdurdod lleol arall ym Mhrydain),**
- **mae mwy o bobl yn gweithio mewn manwerthu**
- **mae mwy o bobl yn gweithio mewn gwestai a thai bwyta**
- **mae canran is o bobl yn gweithio mewn cynhyrchu**
- **mae canran is o bobl o oed gweithio yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.**

Mae incwm blynyddol canolrif aelwydydd ym Mhrestatyn yn is na'r cyfartaledd i Sir Ddinbych gyfan ar wahân i ward Dwyrain Prestatyn.

## Y lle

- **Mae'r rheilffordd yn rhwystr ffisegol rhwng canol y dref a'r traeth.**
- **Mae Prestatyn yn un pen i lwybr Clawdd Offa.**
- **Mae yna oddeutu 150 o welyau mewn gwestai a llety gwely a brecwast graddedig a thros 8,000 mewn llety hunanarlwyo.**
- **Mae'r Traeth Canol wedi ei ddyfarnu â statws Baner Las.**

Er bod yna rai unedau gwag yng nghanol y dref mewn lleoliadau amlwg, mae'r gyfradd eiddo gwag yn llawer is mewn gwirionedd na'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Cyfraddau lleoedd gwag ar gyfer adeiladau manwerthu – Hydref 2012

<b>Prestatyn</b>	<b>7.8%</b>	<b>(14 uned)</b>
<b>Y Deyrnas Unedig</b>	<b>16.3%</b>	<b>(Colliers International)</b>

Mae rhai o'r eiddo yng nghanol y dref wedi eu cynnal yn wael ac mae hynny'n tynnu oddi wrth ei ymddangosiad cyffredinol.

## Heriau a chyfleoedd y dyfodol

### Pobl

Mae nifer y bobl sydd dros 65 ac 85 yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Sir Ddinbych ac mae'n tyfu.

Bellach nid oes yna unrhyw ddarparwyr mawr o ran cyflogaeth gydol blwyddyn yn y dref ei hun.

Bydd nifer y bobl sydd yn y dref yn tyfu'n sylweddol ym misoedd yr haf gyda'r dylifiad o ymwelwyr.

### Cymuned

Byddai angen buddsoddiad ar Nofa i aros yn hyfyw yn y tymor hir.

Bydd Prestatyn yn gymwys am gyllid cymunedol pellach gan fferm wynt ar y môr Gwynt y Môr, a chyllid ychwanegol os bydd estyniad i fferm wynt Burbo Bank yn mynd ymlaen.

Fe awgrymodd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) adneuol Sir Ddinbych na ddylid dyrannu tir glas newydd ar gyfer tai yn y dref. Fe nodwyd safle bychan wedyn yn Mid Nant Farm, y gellid ei ddatblygu os na ellid cyflenwi safleoedd eraill. O'i fabwysiadu, byddai hyn yn golygu na fydd yna unrhyw niferoedd arwyddocaol o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu yn y dref yn y deng mlynedd nesaf.

Mae Ysgol y Llys i'w hymestyn a'i hailwampio.

Mae'r broses statudol i gyfuno Ysgol Fabanod a Phlant Iau Bodnant wedi ei chwblhau ond maen nhw'n dal ar ddau safle hyd nes y daw cyllid ar gael i allu cymryd y ddwy ar un safle.

Mae niferoedd yr ysgolion uwchradd yn lleihau a bydd hyn yn lleihau'r angen am y nifer fawr o ddosbarthiadau symudol ar hyn o bryd.

Cynigiwyd y ficerdy, ac yn enwedig y tir o'i amgylch sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau canol y dref, i'w werthu.

Mae Prestatyn â chlybiau pêl droed a chriced llwyddiannus, ond mae angen pafiliwn newydd ar y clwb criced.

Mae'n bosib y byddai yna effaith ar Sinema'r Scala'n dilyn uwchraddio ac ailwampio Sinema'r Apollo yn y Rhyl ond bydd y Parc Siopa'n darparu hyd at dair awr o barcio am ddim a gallai hynny fod yn fanteisiol i'r rheini sy'n mynd i'r sinema.

Pe byddai i Heddlu Gogledd Cymru leihau nifer y staff gweinyddol sydd yn Ffordd Fictoria fel yr awgrymwyd, mae'n bosib y byddai yna gyfle i adleoli'r swyddogion a fyddai ar ôl mewn canolfan yng nghanol y dref.

## Swyddi

Rhoddyd cymorth i fanwerthwyr tra bod gwaith adeiladu datblygiad y Stadiwm yn digwydd a bydd angen i hyn barhau unwaith y bydd yn agor.

Gyda datblygiad y Stadiwm fe adferir ffasâd adeiladau gwreiddiol yr orsaf.

Fe ddaw datblygiad y Stadiwm â brandiau stryd fawr i Brestatyn.

Mae Pontin's â pherchennog newydd ac mae hyn yn rhoi cyfle i fuddsoddi i uwchraddio'r safle.

Mae rheilffordd Caergybi i Gaer yn cynnig dull cynaliadwy o deithio i ganolfannau cyflogaeth sydd ymhellach i ffwrdd.

Mae natur drefol ffordd arfordirol yr A548 drwy Sir y Fflint ac anaddasrwydd cysylltiadau eraill â'r A55 yn ei gwneud yn anoddach nag y dylai fod i deithio ar y ffordd i ganolfannau cyflogaeth ymhellach i ffwrdd.

Mae yna gyfle i wneud gwell defnydd o asedau naturiol Prestatyn ar gyfer gwyliau/gweithgareddau traeth, beicio a cherdded..



## Y lle

Mae yna sawl safle gwag, sef: cyn bencadlys a warws Kwik Save, cyn ffatri Avimo, cyn ffatri Camelot a chyn safle'r Gwaith Nwy.

Nid yw Prestatyn yn lle hawdd i fynd iddo ar y ffordd.

Mae Gerddi'r Coroni yn cael eu cynnig ar gyfer gwobr y Ffifer Werdd sy'n cydnabod y manau gwyrdd gorau yn y Deyrnas Unedig.

## Gweledigaeth ar gyfer Prestatyn

Rydyn ni am i **Brestatyn**

- allu cynnal cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd yn y dref ei hun
- fod yn gyrchfan manwerthu allweddol ar gyfer brandiau stryd fawr ar yr arfordir rhwng Caer a Llandudno
- ddarparu profiad o ansawdd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd sydd am ddefnyddio traeth Baner Las, cerdded Llwybr Arfordir Cymru a Chlawdd Offa, a beicio ar hyd Lwybr Beicio Cenedlaethol 5 sydd hefyd yn rhedeg ar hyd ffrynt y môr
- cynnig cyrchiad hawdd sy'n amgylcheddol gynaliadwy i ganolfannau cyflogaeth ymhellach i ffwrdd

## Gwneud iddo ddigwydd...

er mwyn pobl

Yr hyn rydyn ni am ei gyflawni	Fe wnawn ni gyflawni hyn drwy	Fe gaiff ei arwain gan	Erbyn
Gwelliant mewn cyflawniad addysgol	Wella cyfleusterau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol y Llys	Cyngor Sir - Moderneiddio Addysg	1 – 5 mlynedd
	Cyfnertu darpariaeth gan Ysgol Gymunedol Bodnant ar safle sengl	Cyngor Sir - Moderneiddio Addysg	1 – 5 mlynedd
	Adolygu cyflwr ysgolion cynradd ac uwchradd eraill	Cyngor Sir - Moderneiddio Addysg	1 – 5 mlynedd

**Gwneud iddo ddigwydd...**  
er mwyn y gymuned

Yr hyn rydyn ni am ei gyflawni	Fe wnawn ni gyflawni hyn drwy	Fe gaiff ei arwain gan	Erbyn
Gwasanaethau lleol gwell	Edrych ar ddichonolrwydd rhedeg siop un stop a rennir ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng nghanol y dref	Cyngor y Dref	1 – 5 mlynedd
	Gwella'r arwyddion a mynediad yn y Scala i gynyddu nifer yr ymwelwyr a chysylltu â datblygiad y Stadiwm	Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden y Cyngor Sir	Blwyddyn
	Edrych ar ddichonolrwydd darparu sinema ychwanegol a chyfleusterau hyfforddi ar 3ydd llawr y Scala	Cwmni'r Scala Prestatyn	1 – 5 mlynedd
	Darparu parc sglefrio / trac pwmp BMX newydd	Cyngor y Dref	1 – 5 mlynedd
Darpariaeth barhaus lleoliad ar gyfer sioeau fel y digwyddiad ceir clasurol a'r sioe flodau	Gofyn am ddarpariaeth mewn unrhyw gynigion datblygu ar gyfer y ficerdy	Sector Preifat	1 – 5 mlynedd
Gwell cyfleusterau hamdden	Parhau ag uwchraddio'r cyfleusterau dan do yng Nghanolfan Hamdden Prestatyn	Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Gweithio i wella cyfleusterau nofio yn yr ardal arfordirol yn cynnwys mynediad i bwll ar gyfer defnydd cymunedol yn y dref	Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden y Cyngor Sir	5 – 10 mlynedd
	Cefnogi darpariaeth pafiliwn criced newydd	Clwb Criced	5 – 10 mlynedd
	Datblygu cyfleusterau chwaraeon dŵr yn Nhraeth Barcbi	Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden y Cyngor Sir	5 – 10 mlynedd
Preswylwyr ac ymwelwyr ddim yn cael eu dychryn gan bobl yn yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus	Gweithredu Gorchymyn Lle Cyhoeddus Dynodedig o fewn rhan o'r dref sy'n dod dan y cyfyngiad cyflymder o 30 m.y.a.	Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor Sir	Blwyddyn
Gostyngiad mewn cŵn yn maeddu mewn mannau cyhoeddus	Datblygu strategaeth y Cyngor ar faw cŵn gan gynnwys trefniadau ymgynghori ar gyflwyno Gorchymyn Rheoli Cŵn o fewn rhan o'r dref sy'n dod dan y cyfyngiad cyflymder o 30 m.y.a.	Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor Sir	Blwyddyn

## Gwneud iddo ddigwydd...

er mwyn yr economi

Yr hyn rydyn ni am ei gyflawni	Fe wnawn ni gyflawni hyn drwy	Fe gaiff ei arwain gan	Erbyn
Cynnig gwell masnach	Cwblhau datblygiad manwerthu Stadiwm	Sector Preifat	1 – 5 mlynedd
	Dod â manwerthwyr ar y Stryd Fawr ac ar ddatblygiad y Stadiwm newydd ynghyd â'r Cyngor Sir a'r Cyngor Tref i weithio mewn partneriaeth drwy ddull "Tîm Tref", ar gyfer budd ehangach canol y dref.	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Edrych ar y posibilrwydd o Gyngor Sgiliau'r Sector Manwerthu yn cynnal arfer "Modelu Lleoliad" ar gyfer y dref	Tai a Datblygu Cymunedol y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Datblygu a gweithredu rhaglen ddigwyddiadau	Fforwm Busnes a Chymuned	1 – 5 mlynedd
Mwy o gyflogaeth yn y dref	Ailddatblygu hen adeiladau'r orsaf	Sector Preifat	1 – 5 mlynedd
	Gweithio gyda pherchnogion newydd Pontin i wneud y mwyaf o'r budd economaidd o gael parc gwyliau yn y dref	Tai a Datblygu Cymunedol y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Gweithio gyda'r perchnogion i ddefnyddio hen bencadlysoedd Avimo, Camelot a Kwik Save a safleoedd warws fel manau cynhyrchu eto	Tai a Datblygu Cymunedol y Cyngor Sir	5 – 10 mlynedd
	Adolygu'r defnydd o asedau Cyngor y Sir yng nghanol y dref gan gynnwys hen safle'r llyfrgell ar Ffordd Nant Hall a 6/8 Ffordd Nant Hall	Cyllid ac Asedau y Cyngor Sir	5 – 10 mlynedd
Cysylltiad gwell â'r ffyrdd i ganolfannau cyflogaeth ymhellach i ffordd	Lobïo ar gyfer gwelliannau i ffordd arfordir yr A548 drwy Sir y Fflint a chysylltiadau eraill	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol y Cyngor Sir	5 – 10 mlynedd

**Gwneud iddo ddigwydd...**  
er mwyn y lle

Yr hyn rydyn ni am ei gyflawni	Fe wnawn ni gyflawni hyn drwy	Fe gaiff ei arwain gan	Erbyn
Bydd ymwelwyr â'r dref yn cael profiad gwell	Gweithredu rhaglen o welliannau amgylcheddol i ffrynt y môr yn cynnwys tacluso y tu allan i'r Nofa	Tai a Datblygu Cymunedol y Cyngor Sir	Blwyddyn
	Edrych ar ddichonolrwydd ymgymryd â gwelliannau amgylcheddol pellach ar ffrynt y môr yn cynnwys y morglawdd, yr arced ddiddanu a Thraeth Ffrith	Tai a Datblygu Cymunedol y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Ailwampio'r orsaf fysiau	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol y Cyngor Sir	Blwyddyn
	Ail-wynebu'r Stryd Fawr	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Ymchwilio i ddichonolrwydd gwella edrychiad ardaloedd cerddwyr canol y dref	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Cynnal archwiliad llawn o arwyddion yn y dref ac o'r A55 i ailosod arwyddion sydd ar goll, adfer arwyddion sydd wedi'u difrodi a darparu arwyddion newydd (yn cynnwys arwyddion i'r traeth) unwaith y bydd datblygiad y Stadiwm yn gyflawn	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Adolygu'r cyfyngiadau parcio eang o gwmpas y Traeth Canol	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Gwella edrychiad safleoedd ac adeiladau amlwg yn cynnwys y ganolfan siopa ac eiddo blêr eraill yn y Stryd Fawr, safle'r cyn lyfrgell yn Ffordd Plas Nant, y farchnad awyr agored, cyn ffatri Avimo, cyn warws Kwik Save, y Morfa a pharapetau pontydd rheilffordd Bodnant a Phenrhwyfa gan ddefnyddio camau gorfodi os bydd angen	Gwasanaethau Tai a Datblygu'r Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
Fe gedwir bywiogrwydd canol y dref	Gwneud i siopau gwag edrych yn ddeniadol	Gwasanaethau Tai a Datblygu'r Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Bod yn hyblyg ynglŷn â'r defnydd a ganiateir	Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Creu llwybr rhwng maes parcio'r olygfan a Gerddi'r Llechwedd a fydd	Gwasanaethau Priffyrdd ac	Blwyddyn

Gwell profiad i'r ymwelwyr sy'n ymuno â'r llwybr neu'n ei adael ar lechwedd Prestatyn	yn caniatáu i gerddwyr ar y Llwybr Cenedlaethol osgoi gorfod defnyddio'r ffordd i Waenysgor	Amgylcheddol y Cyngor Sir	
	Creu llwybr pellach o islaw Lloches y Llechwedd i faes parcio'r chwarel a fydd yn caniatáu i gerddwyr osgoi gorfod defnyddio'r ffordd i Waenysgor	Cwmni Diddordeb Cymunedol Llwybr Clawdd Offa	1 – 5 mlynedd
	Gwella edrychiad Gerddi'r Llechwedd gyda phlannu newydd	Cwmni Diddordeb Cymunedol Llwybr Clawdd Offa	1 – 5 mlynedd
	Gosod dulliau tawelu traffig yn Fforddlas	Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol y Cyngor Sir	1 – 5 mlynedd
	Adfer Lloches y Llechwedd	Cwmni Diddordeb Cymunedol Llwybr Clawdd Offa	1 – 5 mlynedd



## Adran Dau

### Sut mae Gallt Melyd yn ymwneud â Phrestatyn

Mae Gallt Melyd yn agos iawn at Brestatyn, gydag ardaloedd datblygedig y ddwy gymuned erbyn hyn prin 300 metr ar wahân ar eu pwynt agosaf.


Fodd bynnag, mae pentref Gallt Melyd â'i orffennol hanesyddol a diwylliannol pwysig ei hun. Dywed Llyfr Domesday bod eglwys yn y pentref yn 1086 ond byddai'r fynwent gron yn awgrymu ei bod yn safle claddu hyd yn oed cyn y cyfnod Cristnogol. Cyfrannodd mwyngloddio'n fawr at economi'r pentref nes y daeth y gweithgaredd i ben yn 1884, ond mae gwely'r trac o'r lein gangen a oedd yn pasio drwy'r pentref ar y ffordd o'r brif linell ym Mhrestatyn i'r chwarel yn Nyserth bellach yn llwybr cerdded a beicio gymharol hawdd. Er bod y pentref wedi'i leoli bellach o fewn yr ardal a wasanaethir gan Gyngor Tref Prestatyn, mae wedi parhau i gynnal y cymeriad penodol hwn a'i ysbryd annibynnol hyd heddiw ac mae trigolion yn cael mynediad at wasanaethau mewn trefi eraill cyfagos hefyd.

Mae gan y pentref ei hysgol gynradd ei hun ac er bod plant sy'n byw yn y pentref hefyd yn mynd i'r Ysgol Uwchradd ac ysgolion cynradd eraill ym Mhrestatyn, mae rhai hefyd yn mynd i ysgolion mewn trefi eraill megis y Rhyl, Llanelwy a Dinbych.

Mae meddygfa'r pentref yn cael ei gweithredu gan Grŵp Meddygol Pendyffryn sydd hefyd â meddygfeydd ym Mhrestatyn a Ffynnongroyw ond y bwriad yw y bydd darpariaeth ysbyty cymunedol ar gyfer y pentref yn y dyfodol yn y Rhyl.

Er bod pob un o'r gwasanaethau bws sy'n rhedeg drwy'r pentref yn gwasanaethu Prestatyn, maent hefyd yn rhedeg i ganolfannau mawr eraill, gan gynnwys y Rhyl a Llandudno.

Mae swm cymharol gyfyngedig o gyflogaeth o fewn Gallt Melyd ei hun gyda dim ond 116 o bobl yn gweithio yn y pentref (heblaw o'u cartref) ar adeg y cyfrifiad yn 2001. Mae'r ardal ehangach fodd bynnag yn denu nifer sylweddol o ymwelwyr gyda 8,000 o welyau hunanarlwyo ym Mhrestatyn yn unig, hyd at 8,000 o geir yn parcio drwy'r dydd ym Mharc Siopa'r dref a 26,000 o bobl y flwyddyn yn defnyddio Ffordd Prestatyn-Dyserth. Gyda llawer o'r ymwelwyr hyn yn pasio drwy Gallt Melyd, mae hyn yn cynnig cyfle sylweddol i dyfu economi ymwelwyr y pentref trwy hyrwyddo ei amgylchedd hanesyddol a naturiol gwych iddynt.



## Adran Tri

### Anghenion a blaenoriaethau Gallt Melyd

Ar adeg cyfrifiad 2011, roedd 2,066 o drigolion yng Ngallt Melyd, a oedd yn ostyngiad bach o'i gymharu â'r 2,175 a gofnodwyd yn ystod y cyfrifiad yn

2001. O'i gymharu â Sir Ddinbych yn ei chyfanrwydd, mae gan Gallt Melyd

- gyfran uwch o bobl ifanc 15 oed neu iau;
- gyfran lai o bobl hŷn 65 oed neu drosodd;
- gyfran uwch o bobl sy'n gweithio yn y sectorau manwerthu a thwristiaeth;
- cyfran lai o drigolion sy'n gweithio yn y sectorau gweithgynhyrchu a sectorau cyhoeddus.

Fel gweddill y sir, yn ystod y deng mlynedd ers y cyfrifiad diwethaf,

- bu gostyngiad yng nghyfran y bobl ifanc 15 oed neu iau;
- cynnydd yng nghyfran y bobl hŷn 65 oed neu drosodd;
- cynnydd yn y gyfran o breswylwyr sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus.

Yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ar gyfer Sir Ddinbych 2006-21, mae dau safle wedi'u dyrannu ar gyfer tai newydd yn y pentref y tu ôl i Maes Meurig, ac y tu ôl i Ffordd Hendre (na chafodd ei gynnig i'w dyrannu gan y Cyngor Sir), a fyddai'n cynyddu'r boblogaeth yn sylweddol os yw'r ddau yn cael eu datblygu. Byddai'r rhain yn ychwanegol at y 3 annedd newydd yn Graham Avenue, yr 8 annedd fforddiadwy newydd i bobl leol ar y safle ganolfan arddio segur yn Ffordd Talargoch y mae'r gwasanaeth Tai a Datblygu Cymunedol y Cyngor Sir yn ceisio datblygu ar y cyd â Chymdeithas Tai Clwyd, y 30 sydd wedi'u bwriadu ar gyfer yr hen Barc Carafanau a'r 12 a gynigiwyd ar gyfer y tir y tu ôl i'r ystafell arddangos ceir.

## Anghenion

Gyda'r cyd-destun hwn mewn cof, mae'r anghenion a nodwyd ar gyfer ardal y pentref fel a ganlyn:

### Er mwyn y bobl

Gyda phroffil oedran cymharol ifanc yn barod, byddai angen i unrhyw ddatblygiadau preswyl newydd yn y pentref gynnwys ddigon o dai y byddai pobl ifanc o'r pentref yn gallu eu fforddio.

Mae angen cyfleusterau hamdden sy'n diwallu anghenion yr holl bobl ifanc yn y pentref, a dylai'r meysydd chwarae fod â'r offer cywir ar gyfer y grwpiau oedran y maent yn eu gwasanaethu.

Os bydd y ddau safle ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer tai yn cael eu datblygu, byddai angen gwella'r cyfleusterau yn ysgol gynradd y pentref, sydd eisoes yn llawn, i ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn y boblogaeth oedran ysgol.

### Er mwyn y gymuned

Mae'r ganolfan gymunedol yn ased gwych ar gyfer y pentref ond mae angen ei gynnal a'i gadw'n dda.

Mae gan y pentref glwb pêl-droed ffyniannus yn chwarae yng Nghynghrair Alliance Cymru sy'n codi proffil y pentref ar draws Gogledd Cymru, ond mae angen cyfleusterau newid gwell ar ei dir.

Fel cymuned gyda phoblogaeth sylweddol, mae angen cadw cyfleusterau fel y fferylllydd, y swyddfa bost, y tafarnau a'r feddygfa, a byddai'n dda gwella ar y cyfleusterau hyn i gynnwys gwasanaethau ychwanegol fel gofal deintydd.

### Er mwyn yr economi

Mae gan y pentref hanes diddorol a lleoliad gwych a fyddai'n ei alluogi i ddenu mwy o ymwelwyr a chefnogi swyddi ychwanegol yn y sector twristiaeth os byddai modd defnyddio asedau fel y Goods Shed a Pharc Carafannau eto, ac os oedd mwy o wybodaeth ar gael i ymwelwyr.

### Er mwyn y lle

Mae maes parcio am ddim yng nghanol y pentref, ond nid yw'n cael ei reoli'n weithredol, sy'n ei gwneud yn anodd yn aml i bobl sy'n galw yn y Swyddfa Bost, yn mynychu gwasanaethau yn yr eglwys a deiliaid Bathodyn Glas i ddod o hyd i le parcio.

Mae'r ardal o gwmpas prif ffordd yr A547 drwy'r pentref yn ddeniadol iawn ar y cyfan, ond mae rhai manau lle gellid gwella'r edrychiad a'r briffordd, a fyddai'n gwneud y pentref yn lle mwy deniadol i ymwelwyr oedi yno.

## Gwneud iddo ddigwydd...

er mwyn y bobl

Gweithgarwch	Cyfeirnod Strategaeth Uchelgais Economaidd	Fe gaiff ei arwain gan	Canlyniad	Dechrau	Gorffen	Cost mewn £000oedd
Yn seiliedig ar anghenion tai lleol, ceisio cyflawni darpariaeth o dai fforddiadwy addas mewn safleoedd wedi'u dyrannu ar gyfer datblygiad preswyl yn y pentref yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych i ddarparu digon o dai i bobl ifanc yn y pentref y gallant eu fforddio	5.3	Cyngor Sir - Rheoli Datblygu a Chydymffurfiaeth Cynllunio	Darpariaeth tai fforddiadwy wedi'u cynnwys mewn cynlluniau a gymeradwywyd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2021	
Datblygu ystod o opsiynau tai ar gyfer pobl leol o bob oedran i alluogi bod eu hanghenion tai yn cael eu diwallu'n well	5.3	Cyngor Sir – Tai Cymunedol	8 uned tai fforddiadwy'n cael eu datblygu ar hen safle'r Ganolfan Arddio	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2016	
Gweithio gyda phlant y pentref i ddarganfod pa offer y byddent yn hoffi eu gweld yn y meysydd chwarae i ddiwallu eu hanghenion a defnyddio cyllid gan Symiau Cymudol a Thai Cymunedol i'w darparu	5.3	Cyngor Sir – Datblygiad Busnes ac Economaidd	Gwell manau chwarae	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017	£20,000
Sicrhau bod y cyfleusterau yn ysgol gynradd y pentref yn cael eu gwella gan ddefnyddio arian a gafwyd drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a weithredwyd ar y datblygwyr tai newydd neu rywle arall, i ddarparu ar gyfer y niferoedd ychwanegol o blant yn y pentref a fydd yn deillio o ddatblygiad y safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer	5.3	Cyngor Sir – Moderneiddio Addysg	Cyfleusterau gwell yn Ysgol Melyd	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2021	

### Gwneud iddo ddigwydd...

er mwyn y gymuned

Gweithgarwch	Cyfeirnod Strategaeth Uchelgais Economaidd	Fe gaiff ei arwain gan	Canlyniad	Dechrau	Gorffen	Cost
Gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer cynnal a chadw'r ganolfan i sicrhau ei bod yn parhau i ddarparu cyfleuster rhagorol	5.3	Cyngor Tref Prestatyn	Arolwg cyflwr boddhaol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017	
Helpu'r clwb pêl-droed i gael mynediad at gyllid i ddarparu cyfleusterau newid gwell ar ei dir i'w helpu i ddatblygu a chodi proffil y pentref ar draws gogledd Cymru	5.3	Cyngor Sir – Datblygiad Busnes ac Economaidd	Cael cyllid	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017	£25,000
Annog preswylwyr i ddefnyddio cyfleusterau'r pentref fel y fferylllydd, Swyddfa'r Post, tafarndai a meddygfa i sicrhau eu bod yn parhau i fynu	5.3	Grŵp Gweithredu Preswylwyr Gallt Melyd	Ymgyrch	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2021	

### Gwneud iddo ddigwydd...

er mwyn yr economi

Gweithgarwch	Cyfeirnod Strategaeth Uchelgais Economaidd	Fe gaiff ei arwain gan	Canlyniad	Dechrau	Gorffen	Cost
Adfer y Goods Shed fel atyniad ymwelwyr i ddarparu mwy o swyddi yn y sector twristiaeth	3.1	Grŵp Gweithredu Preswylwyr Gallt Melvd	Adfer yr adeilad	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017	£50,000
Annog bod y parc carafannau'n cael ei ddefnyddio eto i ddarparu mwy o swyddi yn y sector twristiaeth	3.1	Cyngor Sir – Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu	Cyfle wedi'i hyrwyddo i weithredwyr posibl	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017	

## Gwneud iddo ddigwydd...

er mwyn y lle

Gweithgarwch	Cyfeirnod Strategaeth Uchelgais Economaidd	Fe gaiff ei arwain gan	Canlyniad	Dechrau	Gorffen	Cost
Mynd ati i reoli maes parcio'r pentref i'w gwneud yn haws ar gyfer pobl sy'n galw yn y Swyddfa Bost, sy'n ymweld â'r eglwys a deiliaid Bathodyn Glas i ddod o hyd i le i barcio	5.3	Cyngor Sir - Traffig, Parcio a Diogelwch y Ffyrdd	Maes parcio'n cael ei reoli'n weithredol	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017	
Gwella edrychiad eiddo yn yr ardal o amgylch ffordd yr A547 drwy'r pentref i'w gwneud yn lle mwy deniadol i ymwelwyr dreulio amser yno	5.1	Cyngor Sir – Rheoli Datblygiad a Chydymffurfiad o	Rhybuddion tir blêr yn cael eu rhoi	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017	
Cefnogi gwella edrychiad y parth cyhoeddus yn yr ardal o amgylch ffordd yr A547 drwy'r pentref i'w gwneud yn lle mwy deniadol i ymwelwyr dreulio amser yno	6.2	Cyngor Tref Prestatyn	Gwaith plannu gwell	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2017	
Gwella parcio ar y stryd ar ffordd yr A547 drwy'r pentref i'w gwneud yn lle mwy deniadol i ymwelwyr dreulio amser yno	6.2	Cyngor Sir – Traffig, Parcio a Diogelwch y Ffyrdd	Gwell manau parcio	1 Ebrill 2014	31 Mawrth 2021	£25,000



## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ar y trywydd iawn?

Fe gynhelir adolygiadau blynyddol o gynnydd gan y Cyngor Sir ynghyd â Chyngor Tref Prestatyn. Fe ddarperir mwy o ddiweddariadau rheolaidd hefyd i Grwpiau Aelodau Ardal y Cyngor Sir a'r Cyngor Tref, a hefyd i'r gymuned ehangach drwy Lais y Sir a thrwy ddatganiadau i'r wasg gan Gyngor Sir Ddinbych. Fe gaiff y Cynllun ei drin fel dogfen fyw lle gellir ychwanegu neu ddileu dyheadau yn ôl newidiadau mewn amgylchiadau.

## Pwy oedd yn gysylltiedig â chynhyrchu'r cynllun yma?

Fe gynhyrchwyd y cynllun yma gan Gyngor Sir Ddinbych yn dilyn ymgynghoriadau â Chynghorwyr Sir a Gwasanaethau, Cyngor y Dref, y Grŵp Busnes, ysgolion uwchradd a'r gymuned ehangach.

I gael rhagor o wybodaeth:

[datblygiad.economaidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:datblygiad.economaidd@sirddinbych.gov.uk)



*Atodiad Ystadegol*  
Data cyfrifiad 2011

Canran y...	Yn nhref Prestatyn	Ym mhentref Gallt Melyd	Yn Sir Ddinbych
Bobl ifanc sy'n 15 oed neu'n iau	<b>17.7</b>	<b>21.19</b>	<b>18.1</b>
Pawb sy'n 65 neu'n hŷn	<b>25.0</b>	<b>20.5</b>	<b>21.1</b>
Pobl sy'n 85 neu'n hŷn	<b>3.5</b>	<b>2.3</b>	<b>2.8</b>
Aelwydydd gorlawn	<b>3.4</b>	<b>3.9</b>	<b>4.5</b>
Pobl sydd wedi'u geni yng Nghymru	<b>47.7</b>	<b>56.3</b>	<b>58.1</b>
Pobl dros 3 oed sy'n gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg	<b>16.9</b>	<b>21.7</b>	<b>27.0</b>
Preswylwyr sy'n gweithio mewn gwestai a thai bwyta	<b>8.1</b>	<b>7.7</b>	<b>6.9</b>
Preswylwyr sy'n gweithio mewn cynhyrchu	<b>8.3</b>	<b>6.6</b>	<b>9.1</b>
Preswylwyr sy'n gweithio mewn manwerthu	<b>16.6</b>	<b>15.4</b>	<b>14.4</b>
Preswylwyr sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus	<b>34.7</b>	<b>34.4</b>	<b>35.7</b>

*Mynegai Amddifadedd*  
Lluosog Cymru

Ardal	Safle yn 2005	Safle yn 2008	Safle yn 2011
Gynnyrch Ehangach Haen Is			
Gogledd Prestatyn 1	<b>1006</b>	<b>843</b>	<b>830</b>
Gogledd Prestatyn 2	<b>677</b>	<b>815</b>	<b>745</b>
Gogledd Prestatyn 3	<b>609</b>	<b>547</b>	<b>571</b>
Canol Prestatyn 1	<b>1694</b>	<b>1578</b>	<b>1592</b>
Canol Prestatyn 2	<b>516</b>	<b>330</b>	<b>335</b>
De Orllewin Prestatyn 1	<b>978</b>	<b>769</b>	<b>695</b>
De Orllewin Prestatyn 2	<b>1119</b>	<b>907</b>	<b>925</b>
Dwyrain Prestatyn 1	<b>835</b>	<b>725</b>	<b>848</b>
Dwyrain Prestatyn 2	<b>1843</b>	<b>1851</b>	<b>1833</b>
Dwyrain Prestatyn 3	<b>1062</b>	<b>1123</b>	<b>1020</b>
Gallt Melyd	<b>928</b>	<b>801</b>	<b>766</b>